# CASGLIAD ABERGELE

## 1020-775 CC

Casgliad o'r Oes Efydd Ddiwedd sy'n cynnwys 7 bwyell socedog efydd, 3 bwyell balstaf efydd, 2 amgarn gwain efydd plwm a darn o ingot copr.

Daethpwyd o hyd iddynt gan ddarganfyddwr metel yn Abergele yn 2017.

## BETH YW CASGLIAD?



Casgliad o eitemau gwerthfawr sy'n cael eu cadw'n gyfrinach yw casgliad. Mae casgliadau'n aml yn gysylltiedig ag arian, ond mae pobl wedi bod yn storio a chelcio metelau a gwrthrychau gwerthfawr ymhell cyn i ddarnau arian gael eu dyfeisio. Cafodd rhai o'r casgliadau cynharaf eu celcio dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl ac maent yn aml yn cynnwys arfau a wnaed allan o efydd.

Ni fyddwn byth yn sicr o ystyr y casgliadau cynnar hyn, ond mae'n edrych yn debyg bod y weithred o'u gosod yn y tir neu mewn dŵr yn bwysig iawn i'w cymunedau.

## PRYD OEDD YR OES EFYDD?

Mae'r cyfnod cynhanesyddol yn gyfnod cyn unrhyw gofnod ysgrifenedig ac, yn draddodiadol, mae archeolegwyr wedi rhannu'r cyfnod yn ôl tri phrif gyfnod: Oes y Cerrig, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn, wedi'u henwi ar ôl y prif dechnolegau a ddefnyddir ar y pryd.

**Yr Oes Efydd** oedd y cyfnod o oddeutu 2,300CC i 800CC pan oedd pobl yn defnyddio efydd. Roedd efydd yn cael ei wneud drwy doddi tun a chopr, a'u cymysgu.

## BETH YW BWYELL BALSTAF?

Math o fwyell nodweddiadol o Ganol yr Oes Efydd yw'r fwyell balstaf. Cafodd y rhain eu gwneud drwy gastio efydd tawdd i fowldiau dwy ran o garreg neu efydd. Roedd y dolenni ar yr ochr yn bwyntiau atodi ar gyfer llinynnau neu irgroen, a oedd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod yr handlen bren yn sownd i'r llafn efydd.



## BETH YW BWYELL SOCEDOG?

Math o fwyell nodweddiadol o Ddiwedd yr Oes Efydd yw'r fwyell socedog. Roedd y bwyelli hyn yn cynnwys soced canolog gwag ar gyfer yr handlen bren, wedi'i gastio mewn mowldiau tair rhan cywrain wedi'u gwneud o garreg, efydd neu glai. Roedd ychwanegu plwm i'r metel tawdd yn gwella'r llif i'r mowldiau, gan arddangos dealltwriaeth well o briodweddau metelau.

## BETH YW AMGARN?

Amgarn yw darn gwaelod gwain sy'n atal y cleddyf rhag syrthio allan.

## BETH YW ARCHAEOLEG?

Archeoleg yw'r astudiaeth o hanes dynoliaeth a'r cyfnod cynhanesyddol trwy gloddio safleoedd a dadansoddi arteffactau.



## BETH YW INGOT?

Ingot yw lwmp o fetel sydd wedi'i siapio'n gyfleus sydd wedi'i echdynnu o fwynau naturiol. Ingotau yw'r deunyddiau sydd eu hangen i gynhyrchu arteffactau efydd gwerthfawr.



## BETH YW ARCHEOLEGYDD?

Mae archeolegwyr yn astudio gwrthrychau ffisegol, lleoedd a thirweddau y mae bodau dynol yn eu creu, eu haddasu neu yn ymgysylltu â nhw.  Eu nod yw dysgu mwy am hanes a phrofiadau bodau dynol. Maent yn cynnal prosiectau cloddio, sy'n cael eu hadnabod yn anffurfiol fel cloddiadau, yn cadw gweddillion archeolegol ac yn casglu data sy'n llywio eu dealltwriaeth o'r gorffennol.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE

Cafodd Casgliad Abergele ei brynu gyda chymorth Grant Prynu Cyngor Celfyddydau Lloegr / Amgueddfa Fictoria ac Albert ac Ymddiriedolaeth Headley.
Cafodd yr atgynhyrchiadau a'r gwaith celf eu hariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

The Abergele Hoard was purchased with support from Arts Council England / V&A Purchase Grant Fund and The Headley Trust.
The replicas and artworks were funded by the UK Government through the UK Shared Prosperity Fund.

# THE ABERGELE HOARD

## 1020-775 BC

A Late Bronze Age hoard of 7 bronze socketed axes, 3 bronze palstave axes, 2 leaded bronze sword scabbard chapes, and a copper ingot fragment.

Found by a metal detectorist in 2017 in Abergele.

## WHAT IS A HOARD?



A hoard is a collection of valued items that are kept secret. Hoards are often associated with money, but people have been storing and depositing precious metal and valuable objects since long before the invention of coins. Some of the earliest hoards were deposited over 4000 years ago and often contain weapons made of bronze.

We will never be certain of the meaning of these early hoards, but it seems likely that the act of placing them in the ground or in water was very important for their communities.

## WHEN WAS THE BRONZE AGE?

Prehistory is the time before written records, and archaeologists traditionally divide prehistory into three main periods: the Stone, Bronze and Iron ages, named after the main technologies used at the time.

**The Bronze Age** was the time from around 2,300BC to 800BC when people used bronze. Bronze was made by melting tin and copper, and mixing them together.

## WHAT IS A PALSTAVE AXE?

The typical axe form of the Middle Bronze Age was the palstave. These were made by casting molten bronze into two-part moulds of stone or bronze. The side-loops were attachment points for twine or rawhide, which were used to secure the wooden handle to the bronze blade.



## WHAT IS A SOCKETED AXE?

The typical Late Bronze Age axe form is the socketed axe. These axes featured a hollow central socket for the wooden handle, cast in intricate three-part moulds made of stone, bronze, or clay. The addition of lead to the molten metal enhanced the flow into the moulds, demonstrating an increased understanding of metal properties.

## WHAT IS A CHAPE?

A chape is the end piece of a sword scabbard that prevents the sword from falling out.



## WHAT IS AN INGOT?

An ingot is a roughly shaped lump of metal extracted from naturally occurring ores. Ingots are the materials necessary to produce prized bronze artefacts.





## WHAT IS ARCHAEOLOGY?

Archaeology is the study of human history and prehistory through the excavation of sites and the analysis of artefacts.

## WHAT IS AN ARCHAEOLOGIST?

Archaeologists study the physical objects, places, and landscapes that humans create, modify, or interact with. Their goal is to learn more about human histories and experiences. They implement excavation projects, informally known as digs, preserve archaeological remains and collect data that informs their understanding of the past.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
CONWY
CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE

Cafodd Casgliad Abergele ei brynu gyda chymorth Grant Prynu Cyngor Celfyddydau Lloegr / Amgueddfa Fictoria ac Albert ac Ymddiriedolaeth Headley.
Cafodd yr atgynhyrchiadau a'r gwaith celf eu hariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

The Abergele Hoard was purchased with support from Arts Council England / V&A Purchase Grant Fund and The Headley Trust.
The replicas and artworks were funded by the UK Government through the UK Shared Prosperity Fund.